

# Rheoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal

25 Mawrth 2015

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae safonau ansawdd NICE yn helpu i wella meysydd iechyd neu ofal cymdeithasol allweddol er mwyn cynnig y gofal gorau posibl i bobl.**

Mae'r wybodaeth hon yn egluro'r gofal a'r cymorth a ddisgrifir yn safon ansawdd NICE ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal.

## Rheoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal

Mae'r safon ansawdd ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal yn cynnwys chwe datganiad sy'n disgrifio gofal o ansawdd uchel i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae'r datganiadau hyn yn nodi ansawdd y gofal y dylech ei dderbyn.

1. Caiff meddyginiaeth pobl sy'n symud i gartref gofal (naill ai am y tro cyntaf neu'n dychwelyd ar ôl cyfnod yn yr ysbyty) ei gofnodi'n ofalus gan y cartref gofal ar y diwrnod y byddant yn symud.
2. Anfonir crynodeb cywir a chyflawn am fanylion a gofal pobl sy'n symud i mewn i gartref gofal neu oddi yno yn cynnwys gwybodaeth fanwl am eu meddyginiaethau cyfredol, o'u lleoliad gofal blaenorol i'w lleoliad gofal newydd er mwyn iddynt allu parhau a'u triniaeth yn ddiogel.
3. Rhoddir cymorth i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i gymryd a gofalu am eu meddyginiaeth eu hunain os ydynt am wneud hynny, oni bai eu bod wedi cael asesiad sy'n dangos nad yw hynny'n bosibl neu'n ddiogel.

4. Rhoddir gwybodaeth gywir a chyflawn i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal ac i staff y cartref gofal am unrhyw feddyginiaeth newydd a ragnodir iddynt. Dylai gynnwys gwybodaeth am sut a phryd y dylid defnyddio eu meddyginiaeth, ac unrhyw archwiliadau y dylid eu cynnal.

5. Adolygir meddyginiaeth pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal gan dîm o bobl sy'n gofalu am eu hiechyd a gofal cymdeithasol er mwyn edrych am unrhyw broblemau.

6. Efallai y bydd angen rhoi meddyginiaeth i oedolion sy'n byw mewn cartrefi gofal, na allant wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal, heb iddynt wybod (gelwir hyn yn weinyddu cuddiedig neu 'covert administration'), er enghraifft wedi'i guddio yn eu bwyd neu ddiod. Dylai staff cartrefi gofal gael cyfarfod gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau o'r teulu i drafod a chytuno p'un ai hyn yw'r opsiwn gorau i'r unigolyn. Os cytunir ar hyn, dylid llunio cynllun ar ôl y cyfarfod er mwyn sicrhau y caiff ei wneud mewn ffordd ddiogel ac y caiff ei adolygu'n rheolaidd er mwyn gweld a ddylid parhau â'r cynllun.

## **Eich gofal**

Dylai eich tîm iechyd a gofal cymdeithasol egluro unrhyw driniaeth, gofal neu gymorth y dylid ei gynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi. Mae NICE hefyd wedi paratoi cyngor a safonau ansawdd ar wella gofal i oedolion sy'n defnyddio'r GIG a gwella profiad gofal oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl y GIG y gallech fod am eu darllen.

Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan NICE am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## **Rhagor o wybodaeth ar reoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal**

Nae NICE hefyd wedi cyhoeddi canllaw (cyngor) ar reoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal. Defnyddiwyd y canllawiau i ddatblygu'r safon ansawdd hon.

### ***Ffynonellau cyngor a gwybodaeth i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, eu teuluoedd a'u gofalwyr***

- Age UK, 0800 169 6565, [www.ageuk.org.uk](http://www.ageuk.org.uk)
- Cymdeithas y Cleifion, 020 8423 8999, [www.patients-association.com](http://www.patients-association.com)
- Mind, 0300 123 3393, [www.mind.org.uk](http://www.mind.org.uk)
- Y Gymdeithas Perthnasau a Thrigolion, 020 7359 8136, [www.relres.org](http://www.relres.org)

Gallwch hefyd fynd i NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae nifer o sefydliadau sy'n rhannu ymrwymiad NICE i wella safon yn y maes hwn yn cefnogi'r safon ansawdd hon yn ffurfiol. Efallai y gallant hefyd ddarparu cyngor a chymorth. I gael rhestr o'r sefydliadau hyn gweler trosolwg o'r safon ansawdd ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn cartrefi gofal.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1189-9